

Prentisiaeth Sylfaenol ar gyfer Defnyddwyr TG gydag Amlgyfrwng a Rheolaeth Cynnwys Digidol

Mae hwn yn gymhwyster canolradd ar gyfer dysgwyr ble mae ei swyddi yn cynnwys creu a chyhoeddi cynnwys ar-lein. Gall hyn gynnwys erthyglau cwmni, grwpiau cyfryngau cymdeithasol, a blogiau fideo. Ariannir y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru ac ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop *.

Mae'r Fframwaith Prentisiaeth Sylfaenol yn cynnwys Diploma Lefel 2 Agored Cymru mewn Sgiliau Defnyddiwr TG a Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol.



Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y gweithle, ar amseroedd cyfleus wedi'u teilwra i anghenion eich sefydliad. Mae hyfforddiant yn hyblyg ond mae gofyn i ddysgwyr ymrwmo i isafswm o 3 awr bob mis.

I gofrestru eich diddordeb, neu i gael mwy o wybodaeth, ffoniwch **01248 671 850** neu e-bostiwch eich manylion cyswllt at yholiadau@cadcentreuk.com

Prentisiaeth Sylfaenol ar gyfer Defnyddwyr TG gydag Amlgyfrwng a Rheolaeth Cynnwys Digidol:

Mae'r fframwaith hwn yn cwrdd ag anghenion y prentisiaid sy'n cael eu cyflogi mewn rôl sy'n gyfrifol am greu, cyhoeddi a rheoli cynnwys ar-lein. Mae'r fframwaith yn darparu dysgwyr gyda chyfres gydlynol o gymwysterau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i weithio a chyfathrebu mewn unrhyw amgylchedd busnes. Mae'r fframwaith yn helpu i ddysgwyr gynhyrchu'r wybodaeth angenrheidiol ochr yn ochr â sgiliau ymarferol er mwyn sicrhau safonau dibynadwy cymhwysedd a sgiliau sy'n berthnasol ac yn benodol i'r sefydliad. Mae'r fframwaith yn cynnwys dwy elfen (a) Diploma ar gyfer Defnyddwyr TG ITQ (QCF) a (b) Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol.

(a) Diploma Lefel 2 mewn Sgiliau Defnyddwyr TG

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i ddatblygu set eang o sgiliau fydd yn hwyluso cynnydd yn y gweithle a / neu ymlaen i ddysgu pellach y dysgwr. Bydd yr unedau hyfforddi canlynol yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cymhwyster hwn:

- Gwella Cynhyrchedd drwy Ddefnyddio TG
- Deall Potensial TG
- Datblygu Effeithiolrwydd Tîm a Personol
- Diogelwch ar y rhyngwyd
- Defnyddio Technolegau Cydweithredol
- Meddalwedd Amlgyfrwng
- Meddalwedd Gwefan

(Unedau eraill ar gael ar gyfer asesu siaradwch â'ch aseswr am ragor o wybodaeth)

(b) Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae gan y sgiliau hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu dysgwyr gynyddu eu sgiliau ac i gwblhau eu rhaglen ddysgu yn effeithiol.

Cyfathrebu Hanfodol (Lefel 1) yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:

- Siarad a Gwranddo
- Darllen
- Ysgrifennu

Er mwyn ennill y cymhwyster Cyfathrebu Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Cymhwyso Rhif Hanfodol (Lefel 1) yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:

- Deall Data Rhifol
- Cynnal Cyfrifiadau
- Dehongli a Chyflwyno Canlyniadau a Chanfyddiadau

Er mwyn ennill y cymhwyster Cymhwyso Rhif Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Llythrennedd Digidol Hanfodol (Lefel 2)

Mae Llythrennedd Digidol Hanfodol yn ymwneud â gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad yn y defnydd o ddyfeisiau digidol

- Chyfrifoldeb Digidol - gwybod sut i aros yn ddiogel a sut i weithredu'n briodol ar-lein
- Cynhyrchiant Digidol - gwybod pa dechnolegau, offer a thechnegau i'w defnyddio a sut i drefnu, rhannu a diogelu gwybodaeth ddigidol
- Gwybodaeth Ddigidol Llythrennedd - yn gallu dod o hyd i, gwerthuso'n feiriadol a defnyddio gwybodaeth ddigidol yn ddiogel
- Cydweithio'n Ddigidol - rhannu gwybodaeth a chydweithio ag eraill i gwblhau tasgau a datrys problemau
- Creadigrwydd Digidol - bod yn gallu defnyddio cyfryngau digidol i gwblhau tasgau, creu cynnwys a datblygu cyfleoedd
- Dysgu Digidol - deall sut y gall technoleg ymestyn cyfleoedd dysgu

- Er mwyn ennill y cymhwyster Llythrennedd Digidol Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

***Subject to meeting eligibility criteria and government funding availability**